# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brookfield**

**Bangor**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Brookfield

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Hydref 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael budd o arosiadau seibiant sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn meithrin cydberthnasau ystyrlon â'u cydbreswylwyr a'r staff gofal sy'n gofalu amdanynt.

Mae ansawdd y wybodaeth a gaiff ei chofnodi ar gynlluniau personol unigol wedi gwella'n sylweddol. Mae'r gwasanaeth wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i ddiweddaru ac adolygu cynlluniau personol ochr yn ochr â system baru effeithiol.

Caiff gofal ei ddarparu gan dîm o staff gofal cyson ac ymroddedig. Mae'r staff yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl yn unol â’r datganiad o ddiben.

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac yn gartrefol ac mae cyfarpar a dodrefn addas ar gael.

Mae arweinyddiaeth gref a chyson yn y gwasanaeth a chymerir camau prydlon i roi gwelliannau ar waith.

## Llesiant

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn cael budd o'u harosiadau seibiant byr yn y gwasanaeth. Caiff yr arosiadau eu trefnu ymhell ymlaen llaw sy'n golygu bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl a gall trefniadau ddarparu ar gyfer amgylchiadau unigol. Lle y bo'n bosibl, bydd y gwasanaeth yn darparu gwasanaethau ychwanegol er mwyn cefnogi teuluoedd ymhellach. Caiff arosiadau byr eu cynllunio yn unol â'r hyn sy'n bwysig i'r bobl a sut y gall eu hamser yn y gwasanaeth gynnig y budd gorau iddynt. Yn ystod eu harosiadau seibiant byr, mae'r bobl yn parhau i ymgymryd â'u gweithgareddau a'u trefn ddyddiol. Er enghraifft, byddant yn ymgymryd â lleoliadau gwaith, canolfannau dydd a chyrsiau coleg.

Mae penwythnosau yn gyfle i ymlacio, a chaiff y bobl eu hannog i dreulio amser yn gwneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae prosesau paru gofalus yn golygu y bydd y rhai sydd â diddordebau tebyg yn aml yn aros yn y tŷ ar yr un pryd, a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd. Os na cheir cytundeb, bydd y staff gofal yn ceisio darparu ar gyfer hoff bethau a chas bethau unigol y bobl. Bydd y staff gofal yn cyrraedd yn gynnar yn aml er mwyn paratoi ar gyfer newidiadau mewn arosiadau cyfnod byr.

Mae'r seibiannau byr a gynigir yn adnodd gwerthfawr i'r bobl a'u teuluoedd. Mae'r profiadau a gynigir yn golygu bod y bobl yn cael budd o'r seibiant ac yn cael dihangfa o straen bywyd pob dydd. Pan fo angen, bydd y gwasanaeth yn monitro anghenion iechyd unigol ac yn rhannu gwybodaeth â theuluoedd ac asiantaethau perthnasol.

Mae'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth. Bydd y staff gofal yn cysylltu'n rheolaidd â theuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am eu goal. Caiff llesiant personol ei fonitro. Cyn cyfnod seibiant, bydd y staff gofal yn ymgynghori â theuluoedd ac yn casglu gwybodaeth ddiweddar am anghenion unigol ac yn cadarnhau a oes unrhyw beth wedi newid. Ar ddiwedd y cyfnod seibiant, caiff ffurflen adborth fanwl ei llenwi a'i rhannu.

Mae'r llety yn gartrefol ac yn cynnwys yr holl nodweddion cysurus y byddech yn eu disgwyl mewn cartref teuluol. Mae'r staff gofal yn gwybod ym mha ystafell wely y mae'r bobl yn hoffi aros, a gellir diwallu eu hanghenion. Gellir mwynhau prydau yn y gegin neu yn yr ystafell fwyta ar wahân, a gallant wylio'r teledu a chymdeithasu yn y brif ystafell fyw. Mae un ystafell wely wedi'i haddasu ar y llawr gwaelod, ac mae hyn yn cefnogi pobl sydd ag anghenion corfforol ychwanegol.

.

## Gofal a Chymorth

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu'r gwasanaeth drwy gytundeb lefel gwasanaeth, a chaiff lleoliadau eu hystyried a'u trafod fel rhan o banel adnoddau'r awdurdod lleol. Cyn cynnig pecyn gofal seibiant, a chytuno ar ddyddiadau addas, bydd darparwr y gwasanaeth yn ystyried sut y bydd yn diwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd ar gyfer unigolyn. Mae gan y staff gofal a'r rheolwyr wybodaeth helaeth am anghenion gofal a chymorth unigol y bobl a gallant sicrhau nad yw arosiadau gwahanol yn effeithio ar ei gilydd. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r system baru; caiff gwybodaeth ei chofnodi bellach, sy'n golygu y byddai'n bosibl paru unigolion yn llwyddiannus pe bai aelodau penodol o'r staff gofal yn absennol.

Mae'r gwasanaeth yn cael gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth y bobl. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i lunio cynllun personol. Mae arweinwyr y gwasanaeth wedi bod yn cysylltu â'r awdurdod lleoli yn ddiweddar er mwyn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf. Cysylltir ag aelodau o deuluoedd cyn arhosiad byr hefyd er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol. Caiff unrhyw newidiadau eu rhannu â'r staff gofal ar unwaith drwy system cofnodion electronig y gwasanaeth a chaiff unrhyw wybodaeth o bwys ei hychwanegu at y cynllun personol. Weithiau, gall gwybodaeth newid sawl gwaith wrth gynllunio seibiant byr a gwelsom fod y dogfennau'n cael eu diweddaru bob amser ynghyd ag asesiad y darparwr, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn addas o hyd.

Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i gefnogi'r bobl. Maent yn ofalgar ac mae eu dull gweithredu yn unol â datganiad o ddiben y gwasanaeth. Maent yn cydnabod yr hyn sydd ei angen ar y bobl a'u teuluoedd, ac maent yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae'r tîm cyson o staff yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Nid oes unrhyw newidiadau staffio wedi bod ers yr arolygiad diwethaf; mae pob aelod o'r staff yn brofiadol ac wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn rhoi sefydlogrwydd a chysondeb i deuluoedd. Byddai'r rhai a fyddai'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg yn gallu gwneud hynny oherwydd bod sawl aelod o'r staff gofal yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae rota a phatrymau gwaith y staff gofal yn adlewyrchu pwysigrwydd gwerthfawrogi dewisiadau'r unigolion, a'u hurddas a'u preifatrwydd. Prif ffocws y staff gofal yw darparu gofal a chymorth yn unol â dewisiadau, anghenion a dymuniadau'r unigolyn. Maent yn eirioli'n rheolaidd ar eu rhan er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar unrhyw adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen arnynt. Os bydd angen, caiff cyfarfodydd ag asiantaethau allanol eu trefnu a chaiff asesiadau pellach o anghenion eu cwblhau er mwyn asesu a ellir darparu cyfarpar arbenigol.

## Yr Amgylchedd

Mae lleoliad a chynllun y safle yn addas ar gyfer y gwasanaeth. Mae ei leoliad yn golygu bod mynediad hawdd at drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau lleol megis siopau a mannau o ddiddordeb. Mae dau gerbyd cwmni ar gael iddynt hefyd. Mae darparwr y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i drefnu trafnidiaeth pan fo angen.

Mae ystafell wely unigol ar gyfer pob person. Mae ystafell ymolchi a rennir i fyny'r grisiau ac ystafell ymolchi ensuite yn yr ystafell wely ar y llawr gwaelod. Mae natur y gwasanaeth yn golygu ei bod yn anodd personoli'r ystafelloedd gwely. Fodd bynnag, pan fo'n bosibl, bydd darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael yr un ystafell wely o'u dewis. Fel arfer byddant yn dychwelyd i'r un ystafell wely a glustnodwyd iddynt ar eu diwrnod cyntaf. Mae gan y staff gofal eu hystafell wely eu hunain i fyny'r grisiau. Er mwyn i'r staff gofal gael lle tawel i wneud gwaith papur, mae desg a chyfrifiadur yn ystafell wely'r staff. Fodd bynnag, mae'n lle cyfforddus i orffwys o hyd. Gall y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth gadw eu heiddo personol yn ddiogel mewn lleoliad priodol ac mae proses ar gyfer storio meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae cyfarpar arbenigol ar gael, megis teclynnau codi a chanllawiau cydio. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gartrefol ac yn addas ar gyfer anghenion a ffordd o fyw'r bobl sy'n aros yno. Gall unigolion ddewis cymdeithasu yn yr ardaloedd cymunedol, neu gallant ddewis treulio amser ar eu pen eu hunain. Pe bai angen, mae prif swyddfa darparwr y gwasanaeth yn y dref gyfagos lle gellir cynnal cyfarfodydd cyfrinachol heb amharu ar drefn ddyddiol a phreifatrwydd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae cytundeb lefel gwasanaeth â pherchennog yr adeilad a rhoddir gwybod am unrhyw waith y mae angen ei wneud yn brydlon ac eir i'r afael â hyn o fewn cyfnod addas. Cafodd yr adeilad ei baentio yn ddiweddar. Y staff gofal sy'n gyfrifol am y gwaith glanhau ac, fel cartref teuluol, byddant yn cael help gan y bobl sydd yno.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch yr unigolyn eu nodi a'u lleihau gymaint â phosibl. Mae darparwr y gwasanaeth yn gwirio tymheredd yr oergell a'r bwyd, ond gwelsom nad oedd bwydydd yn yr oergell wedi cael eu labelu er mwyn cofnodi pryd y cawsant eu hagor. Caiff y larymau tân eu profi bob wythnos, a chaiff ymarferion tân eu cynnal.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu â gofal a chymhwysedd digonol. Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae nod y gwasanaeth yn glir yn y datganiad o ddiben ac mae'r bobl wrth wraidd y gwasanaeth. Caiff y datganiad o ddiben ei adolygu'n barhaus a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

Mae trefniadau staffio cyson yn golygu bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gofal gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Mae hyn yn golygu bod y staff gofal yn gallu nodi newidiadau mewn anghenion. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a benodwyd wedi rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae pob arweinydd yn gweithio mewn partneriaeth ac yn ymdrechu i barhau i ddarparu gofal o safon.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod lefelau staffio priodol. Mae pob aelod o'r staff yn brofiadol ac yn gyfarwydd â'u rolau. Mae'r staff gofal yn hyderus yn eu gallu ac yn gweithio'n dda fel tîm. Ers yr arolygiad diwethaf, gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn gyson, gan felly roi cyfle i'r staff gofal drafod a myfyrio. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi datblygu'r defnydd o system electronig ymhellach. Gellir cael gafael ar wybodaeth drosglwyddo yn electronig bellach, ac mae gan bob aelod o'r staff gofal eu ffôn symudol eu hunain at ddibenion gwaith. Mae llyfrau trosglwyddo manwl yn golygu y gall y staff gofal gael gafael yn hawdd ar y wybodaeth y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni ar ddechrau pob shifft.

Nid oes unrhyw newidiadau staffio wedi bod ers yr arolygiad diwethaf. Caiff y staff gofal sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon ac mae arfarniadau blynyddol yn cael eu cwblhau yn unol â rhaglen dreigl 12 mis. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant rheolaidd mewn perthynas â'u rôl, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol.

Mae'r dirprwy reolwr yn cyflawni rôl y rheolwr ar hyn o bryd gyda chymorth y rheolwr ardal a'r rheolwr cofrestredig blaenorol. Mae strwythurau ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth sy'n darparu system ddirprwyo addas ac effeithiol pan na fydd y rheolwr ar gael neu pan fydd yn absennol am gyfnod. Mae trefniadau cadarn ar gyfer ymdrin ag unrhyw absenoldebau neu argyfyngau.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau ar y canfyddiadau, gan nodi elfennau cadarnhaol a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn llywio'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'u rheolwr llinell. Mae angen sesiynau goruchwylio i'w helpu i fyfyrio ar eu harferion a sicrhau eu bod yn cynnal safon eu cymhwysedd proffesiynol. Mae'r diffyg goruchwyliaeth yn golygu nad ydynt yn cael cyfle i gael adborth ar eu perfformiad. Nid yw'r staff gofal wedi cael arfarniad blynyddol i roi adborth ar eu perfformiad a nodi meysydd lle mae angen hyfforddiant a datblygiad i'w cefnogi yn eu rôl. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid yw cynlluniau personol yn cael eu hadolygu o leiaf bob tri mis, neu'n gynt os bydd amgylchiadau unigolyn yn newid. Nid yw'r cynlluniau yn adlewyrchu a yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi unigolyn wedi newid er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol. | Cyflawnwyd |
| 14 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn dangos sut mae wedi asesu sut y bydd yn diwallu anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Nid oes tystiolaeth i ddangos sut mae wedi asesu addasrwydd achosion pan fydd unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth ar yr un pryd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar lesiant a chyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol. Dangosodd trafodaethau â'r staff gofal a'r rheolwr ardal fod y staff gofal yn ymwybodol o'r effaith, ond ni chaiff proses ffurfiol ei dilyn, ac mae paru unigolion yn dibynnu'n llwyr ar y wybodaeth sydd gan y staff gofal penodol am y bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 18 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau asesiadau'r darparwr ar gyfer y bobl hynny sy'n cael gwasanaeth, fel sy'n ofynnol yn unol â'r rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth, yn unol â'r rheoliadau. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/04/2024